NATIONAL ENRICHMENT PROGRAMME

RHAGLEN GYFOETHOGI GENEDLAETHOL

**Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol y Brifysgol Agored yng Nghymru 2022/23**

> **"Mae ein dull wedi'i ategu gan weledigaeth y Brifysgol Agored 'Rhoi cyfle i fwy o fyfyrwyr ddysgu a newid eu bywydau, a fydd yn bodloni eu hanghenion ac yn cyfoethogi cymdeithas'"**

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru'n croesawu'r cyfle o ychwanegu gwerth i ddysgwyr AB (Addysg Bellach) ar draws Cymru drwy ymgysylltu â'r rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol. Hyderwn y bydd ein cynnig unigryw yn cynorthwyo dysgwyr i gyfoethogi eu hastudiaethau ac i'w helpu a'u cefnogi drwy ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy y mae cyflogwyr ac AU (Addysg Uwch) yn chwilio amdano. Dyma amserlen ar gyfer y rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol, gan gynnwys dysgu dan arweiniad myfyrwyr, gweithdai digidol rhyngweithiol wedi'u ffrydio'n fyw, a siaradwyr gwadd. Mae ein dull wedi'i ategu gan weledigaeth y Brifysgol Agored 'Rhoi cyfle i fwy o fyfyrwyr ddysgu a newid eu bywydau, a fydd yn bodloni eu hanghenion ac yn cyfoethogi cymdeithas'

Conglfaen y Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol yw ein platfform dysgu unigryw am ddim - OpenLearn – mae gan y Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol ei dudalen hafan ei hun ble rydym wedi awgrymu rhai cyrsiau perthnasol, ond byddwn yn annog y dysgwyr i bori drwy OpenLearn a dewis cwrs sy'n eu cymell nhw i astudio, yn ystod y sesiynau Cyfoethogi ac yn annibynnol.

Rydym yn cynnig gweithdai digidol rhyngweithiol yn ystod y flwyddyn academaidd hon, gan drafod pynciau megis 'Hacio Moesegol a Realiti Cymysg'. Bydd y gweithdai a'r sgyrsiau gyda siaradwyr gwadd yn cael eu ffrydio'n fyw a'u recordio, a gellir dod o hyd iddynt ar dudalen hafan y Rhaglen Gyfoethogi ar OpenLearn wythnos yn ddiweddarach. Bydd ein sgyrsiau â siaradwyr gwadd yn ymdrin ag ystod o bynciau perthnasol, megis gwleidyddiaeth Cymru, iechyd meddwl a llais y myfyrwyr. Ar gyfer y sgwrs â siaradwr gwadd ar wleidyddiaeth Cymru, byddwn yn rhoi cyfle i ddysgwyr fod mewn cyswllt ag aelod o'r Senedd, gan ofyn cwestiynau sy'n bwysig iddyn nhw. Hwylusir hyn gan uwch reolwr o'r Brifysgol Agored yng Nghymru.

Rydym wedi dylunio'r rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol i fod yn gynhwysol, yn arloesol ac yn ymatebol i'r sector AB ac anghenion cymdeithasol. Oherwydd hyn, rydym yn annog ein rhanddeiliaid i roi adborth rhagweithiol a rhannu eu syniadau i helpu i lywio'r rhaglen. Gwahoddwn eich tiwtoriaid a'ch staff cymorth i ddod yn Genhadon y Brifysgol Agored yng Nghymru drwy fynd i sesiwn 1.5 awr o hyfforddiant ar-lein. Nod y rhaglen Cenhadon y Brifysgol Agored yw rhoi cyfle i gyfranogwyd ymgyfarwyddo â'r platfform a'i botensial.

Dyma'r amserlen ar gyfer y Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol 2022/23

Carla Williams, **Cydlynydd Partneriaeth, Y Brifysgol Agored yng Nghymru** E-BOST

NATIONAL ENRICHMENT PROGRAMME

RHAGLEN GYFOETHOGI GENEDLAETHOL

| Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol – Dysgwyr Addysg Bellach Lefel 2 - 5 – Amserlen hunan-astudio, siaradwyr gwadd a gweithdai | | |
|---|---|---|
| **Pwnc y Gweithdy** | **Ffrydio'r Sesiynau Cyfoethogi yn fyw – Dydd Mercher 1100 – 1200** | **Recordiad ar-lein** |
| **Sesiwn 1** – Siaradwr/siaradwyr gwadd<br><br>**'Croeso i'r Brifysgol Agored yng Nghymru - Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol'**<br><br>Cyflwynwyd gan Samantha Forde – y Brifysgol Agored yng Nghymru, Cydlynydd Partneriaeth (Undebau Llafur a Sgiliau)<br>a<br>Carla Williams – y Brifysgol Agored yng Nghymru, Cydlynydd Partneriaeth (Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol)<br><br>**Ffrwd fyw: Dydd Mercher 5 Hydref 2022 am 11:00 – 12:00** | Cyflwyniad bras i'r Brifysgol Agored a'r e-gylchlythyr i fyfyrwyr i gefnogi'r rhaglen.<br><br>- Trosolwg o'r rhaglen a'r e-gylchlythyr i ddysgwyr<br>- Cyflawni cofrestriad y Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol (RhGG)<br>- Sgiliau Astudio - Canllaw ar sut i astudio o bell | Gellir dod o hyd i recordiad o'r sesiwn hon ar dudalen hafan y Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol ar OpenLearn o ddydd Llun 10 Hydref 2022 |
| **Sesiwn 2** – Siaradwr/Siaradwyr Gwadd<br><br>**'Dechrau ar OpenLearn'**<br>Cyflwynwyd gan i'w gadarnhau<br><br>**Ffrwd fyw: Dydd Mercher 12 Hydref 2022 am 11:00 – 12:00**<br><br>OpenLearn – Free learning from The Open University | OpenLearn<br>- Cofrestru ar OpenLearn<br>- Tudalen hafan y Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol<br>- Cyflwyniad i'r adnodd am ddim<br>- Dewisol: Rhoi cynnig ar un o'r cyrsiau byr posibl hyn | Gellir dod o hyd i recordiad o'r sesiwn hon ar dudalen hafan y Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol ar OpenLearn o ddydd Llun 17 Hydref 2022 |
| **Sesiwn 3** – Siaradwr/Siaradwyr Gwadd | OpenLearn<br>- Taith o'r adnodd am ddim | Gellir dod o hyd i recordiad o'r sesiwn hon ar dudalen hafan y |

| | | |
|---|---|---|
| **'OpenLearn – Archwilio, Herio, Cydnabod a Gwobrwyo'**<br><br>Cyflwynwyd gan i'w gadarnhau<br><br>**Ffrwd fyw: Dydd Mercher 19 Hydref 2022 am 11:00 – 12:00**<br><br>OpenLearn — Free learning from The Open University | - Cwrs BOC (Cwrs Bathodynnau Agored) – mae rhai cyrsiau OpenLearn yn gwobrwyo cwblhad drwy roi bathodyn digidol fel cofnod dysgu<br>- Bydd y dysgwyr yn cael eu hannog i osod targedau dysgu y gellir eu cyflawni<br>- Cofrestru ar gyfer cwrs/cyrsiau penodol<br>- Dechrau ar astudio Cyfoethogi - gyda thema gyfoethogi a/neu uwchsgilio | Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol ar OpenLearn o ddydd Llun 24 Hydref 2022 |
| **Sesiwn 4** – Astudio OpenLearn annibynnol parhaus | | |
| **Sesiwn 5** - Astudio OpenLearn annibynnol parhaus | | |
| **Sesiwn 6 - **Gweithdy Digidol Rhyngweithiol****<br><br>**'Dewch i mewn i Fyd Anhygoel *Hacio Moesegol*'**<br><br>Cyflwynwyd gan Lee Campbell – Darlithydd yn y Brifysgol Agored a gweithiwr proffesiynol y diwydiant Seiber<br><br>**Ffrwd fyw: Dydd Mercher 16 Tachwedd 2022 am 11:00–12:00** | Trosolwg o'r gweithdy:<br>- Beth yw seiber-ddiogelwch?<br>- Yr angen am hacwyr moesegol<br>- Sgiliau hacio<br>- Arddangosfa a thasg<br>- Adnoddau profi treiddiad | Gellir dod o hyd i recordiad o'r sesiwn hon ar dudalen hafan y Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol ar OpenLearn o ddydd Llun 21 Tachwedd 2022 |

| | | |
|---|---|---|
| The Open University Faculty of STEM | | |
| **Sesiwn 7 –** Astudio OpenLearn annibynnol parhaus | | |
| **Sesiwn 8** – **** Gweithdy Digidol Rhyngweithiol****<br><br>**'*Hyfforddiant Sgiliau Gallu Seiber Deallusol, wedi'i Gemeiddio' (GICAST)*'**<br><br>Cyflwynwyd gan Chitra Balakrishna, Ph.D. MBCS, SFHEA, CEH (Haciwr Moesegol ag Ardystiad) – Arweinydd Rhaglen Seiber-ddiogelwch y Brifysgol Agored<br><br>**Ffrwd fyw: Dydd Mercher 30 Tachwedd 20200 am 11:00 - 12:00** | Trosolwg o'r gweithdy:<br>- Chwalu mythau seiber-ddiogelwch<br>- Mynediad i gemau GICAST ar OpenLearn<br><br>*Gellir dod o hyd i'r cwrs GICAST llawn ar OpenLearn, ac mae'n un o'n cyrsiau BOC. Bydd cyfle i chi ennill bathodyn digidol y Brifysgol Agored am ddim. Datblygwyd y cwrs gan y Brifysgol Agored gyda chymorth gan Raglen Seiber-ddiogelwch Cenedlaethol Llywodraeth y DU, a gellid cael mynediad iddo am ddim.* | Gellir dod o hyd i recordiad o'r sesiwn hon ar dudalen hafan y Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol ar OpenLearn o ddydd Llun 5 Rhagfyr 2022 |

NATIONAL ENRICHMENT PROGRAMME

RHAGLEN GYFOETHOGI GENEDLAETHOL

| | | |
|---|---|---|
| The Open University Faculty of STEM | | |
| **Sesiwn 9 - ** Gweithdy Digidol Rhyngweithiol****<br><br>***'Archwilio labordai OpenSTEM'***<br><br>Cyflwynwyd gan Stephen Jones – Uwch Diwtor STEM y Brifysgol Agored, Ysgol Peirianneg ac Arloesedd<br>a<br>Rob Janes – Uwch Diwtor STEM y Brifysgol Agored, Ysgol y Gwyddorau Bywyd, Iechyd a Chemegol<br><br>**Ffrwd fyw: Dydd Mercher 7 Rhagfyr 2022 am 11:00 – 12:00**<br><br>The OpenSTEM Labs | Mae gan y Brifysgol Agored hanes o ddefnyddio dulliau arloesol o gyflawni profiadau ymarferol gwirioneddol mewn pynciau STEM. Y Labordai OpenSTEM yw ein datblygiad diweddaraf. Maen nhw'n cynnwys nifer o labordai a phob un gyda hunaniaeth unigryw, sy'n bodloni anghenion modern myfyrwyr ac anghenion sgiliau cenedlaethol.<br><br>Nod y gweithdy hwn yw rhoi i'r myfyriwr/myfyrwyr y cyfle i roi cynnig ar rai o'n harbrofion 'OpenSTEM Labs'. Mae gennym gynnig sy'n ehangu, ac rydym yn falch o'ch gwahodd chi i ymchwilio:<br>- Y Labordy OpenScience<br>- Yr Arsyllfeydd OpenScience<br>- Y Labordy OpenEngineering<br>- Y Labordy OpenHealth<br>- Y Labordy OpenComputing | Gellir dod o hyd i recordiad o'r sesiwn hon ar dudalen hafan y Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol ar OpenLearn o ddydd Llun 12 Rhagfyr 2022 |

Carla Williams, **Cydlynydd Partneriaeth, Y Brifysgol Agored yng Nghymru** E-BOST

| | | |
|---|---|---|
| **Sesiwn 10 -** Astudio OpenLearn annibynnol parhaus | | |
| **Sesiwn 11** - Astudio OpenLearn annibynnol parhaus | | |
| **Sesiwn 12** - Siaradwr/siaradwyr gwadd –<br><br>***'Dysgu gydol oes a dysgu er budd'***<br><br>Cyflwynwyd gan Miv Harris – Y Brifysgol Agored yng Nghymru, Rheolwr Cyflawni'r Rhaglen Brentisiaethau<br>a<br>Rhys Griffiths – Y Brifysgol Agored yng Nghymru, Rheolwr Perthnasoedd<br><br>**Ffrwd fyw: Dydd Mercher 18 Ionawr 2023 am 11:00 – 12:00** | Trosolwg:<br>- Dysgu gydol oes a'i bwysigrwydd<br>- Manteision dysgu<br>- IAG gyda Miv a Rhys<br>- Sesiwn holi ac ateb prentisiaeth radd (astudiaethau achos)<br>- Microgymwysterau (Astudiaethau achos) | Gellir dod o hyd i recordiad o'r sesiwn hon ar dudalen hafan y Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol ar OpenLearn o ddydd Llun 23 Ionawr 2023 |
| **Sesiwn 13** - Astudio OpenLearn annibynnol parhaus | | |
| **Sesiwn 14 - **Gweithdy Digidol Rhyngweithiol****<br><br>***'Realiti Cymysg a Realiti Rhithwir'***<br><br>Cyflwynwyd gan Oli Howsen – Tiwtor y Brifysgol Agored: technolegau MR, VR ac AR<br><br>**Ffrwd fyw: Dydd Mercher 1 Chwefror 2023 am 11:00 – 12:00** | Trosolwg o'r gweithdy:<br>- Trosolwg o xRealiti<br>- Diwydiant 4.0 a ble mae xRealiti yn ffitio i mewn<br>- Hanfodion – Canllaw sut i wneud..<br>- Trosolwg o'r dasg – Tasg aml-gyfrwng gyda naws VR | Gellir dod o hyd i recordiad o'r sesiwn hon ar dudalen hafan y Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol ar OpenLearn o ddydd Llun 6 Chwefror 2023 |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **Sesiwn 15 - ** Tasg Ymarferol **** <br><br> Tasg VR a osodwyd gan Oli Howsen <br><br> **Ffrwd fyw: Dydd Mercher 8 Chwefror 2023 am 11:00 – 12:00** | Trosolwg o'r sesiwn <br><br> - Tasg aml-gyfrwng gyda naws VR <br> - Adolygu cynnydd a rhoi cymorth os oes angen | Gellir dod o hyd i recordiad o'r sesiwn hon ar dudalen hafan y Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol ar OpenLearn o ddydd Llun 13 Chwefror 2023 |
| **Sesiwn 16** – Astudio OpenLearn annibynnol parhaus | | |
| **Sesiwn 17** - Astudio OpenLearn annibynnol parhaus | | |
| **Sesiwn 18** - Siaradwr/Siaradwyr Gwadd - <br><br> ***'Amser Cwestiynau gydag Aelod o'r Senedd'*** | Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn falch o allu cynnig cyfle i ddysgwyr i ofyn y cwestiynau sy'n bwysig iddyn nhw yn uniongyrchol i Aelod o'r Senedd. | Gellir dod o hyd i recordiad o'r sesiwn hon ar dudalen hafan y Rhaglen Gyfoethogi |

| | | |
|---|---|---|
| Wedi'i hwyluso gan Cerith Rhys Jones, Uwch Reolwr Materion Allanol y Brifysgol yng Nghymru<br><br>**Ffrwd fyw: Dydd Mercher 8 Mawrth 2023 am 11:00 – 12:00** | Bydd rhagor o fanylion am y digwyddiad hwn yn cael eu cadarnhau yn nes at yr amser. | Genedlaethol ar OpenLearn o ddydd Llun 13 Mawrth 2023 |
| **Sesiwn 19** – Siaradwr/Siaradwyr Gwadd –<br><br>***'Athrawon y Dyfodol'***<br><br>Cyflwynwyd gan i'w gadarnhau<br>**Ffrwd fyw: Dydd Mercher 15 Mawrth 2023 am 11:00 – 12:00** | Yr wythnos hon, bydd rhai o gynfyfyrwyr y Brifysgol Agored yn galw heibio i drafod eu llwybrau at y proffesiwn addysgu. | Gellir dod o hyd i recordiad o'r sesiwn hon ar dudalen hafan y Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol ar OpenLearn o ddydd Llun 20 Mawrth 2023 |
| **Sesiwn 20 –** Siaradwr/Siaradwyr Gwadd –<br><br>**'5 ffordd at les meddyliol'**<br><br>Cyflwynwyd gan Alayla Castle-Herbert, Swyddog Polisi, Dysgu ac Addysgu y Brifysgol Agored yng Nghymru<br><br>**Ffrwd fyw: Dydd Mercher 22 Mawrth 2023 am 11:00 – 12:00** | Trosolwg o'r sesiwn:<br>- Archwilio'r 5 ffordd a sut mae'n berthnasol i ddysgwyr a'u hastudiaethau<br><br>Cyfeirio at adnoddau iechyd meddwl a lles ar OpenLearn | Gellir dod o hyd i recordiad o'r sesiwn hon ar dudalen hafan y Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol ar OpenLearn o ddydd Llun 27 Mawrth 2023 |
| **Sesiwn 21** – Siaradwr/Siaradwyr Gwadd - | Trosolwg o'r sesiwn:<br>- Crynodeb o'r Rhaglen | |

| | | |
|---|---|---|
| **‘Rhaglen Gyfoethogi Genedlaethol - Sesiwn Grynodeb'**<br><br>Cyflwynwyd gan i’w gadarnhau<br><br>**Ffrwd fyw: Dydd Mercher 29 Mawrth 2023 am 11:00 – 12:00** | - Llwyddiant Myfyrwyr<br><br>Sesiwn grynhoi i atgyfnerthu gwybodaeth am raglen y Brifysgol Agored a phwyntiau cyswllt defnyddiol *(cyfeirio at y llyfryn Cymorth i fyfyrwyr a gyhoeddwyd yn bwrpasol gan y rhaglen Gyfoethogi)* | |

Carla Williams, **Cydlynydd Partneriaeth, Y Brifysgol Agored yng Nghymru** **E-BOST**